AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 231 Awst – Medi 2021

# Gwyliedydd





# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

**Eglwys yn llawn o bechaduriaid**
Yn 1744 y cyfarfu John Wesley â'i gydweithwyr am y tro cyntaf er mwyn ystyried bywyd, athrawiaeth ac ymarfer y bobl Fethodistaidd. Yn 1989 y cefais innau gyfle am y tro cyntaf i fod yn un o'r cynrychiolwyr yn y Gynhadledd Fethodistaidd. Ar y pryd roeddwn yn aelod yn Nhalaith Bryste a newydd gael fy nerbyn yn ymgeisydd am y weinidogaeth. Fel cynrychiolydd dibrofiad, cefais fy nghefnogi gan weinidog o'r enw Mark ac roedd ei gymorth yn amhrisiadwy. Cofiaf un sesiwn yn arbennig, pan gefais fraw o glywed am bobl yn ymddwyn yn amhriodol o fewn yr eglwys. Dyma fi'n troi at Mark, yn llawn dicter, i fynegi fy marn. Oedodd am foment, yna meddai â gwên, "The church is full of sinners." Tawelais yn syth!

**Newid ar droed**
A bellach dyma'r pechadur yma wedi dychwelyd o Gynhadledd Fethodistaidd 2021. Y llynedd fe gynhaliwyd y Gynhadledd gyfan ar-lein ond eleni aeth rhai ohonom i'r National Conference Centre yn Birmingham gyda'r gweddill yn ymuno ar-lein. 'Hybrid' oedd y gair, er bod pawb yn rhan o'r un Gynhadledd. Do, gwelwyd newid yn null y Gynhadledd o gyfarfod, ond roedd yr agenda a'r penderfyniadau yn sicr yn cyfeirio at eglwys sy'n newid. "O'r diwedd!" byddai rhai yn dweud.

Treuliodd y Gynhadledd lawer o amser yn ystyried Priodas a Pherthnasoedd, gan gynnwys ystyried priodas rhwng pobl o'r un rhyw. Pleidleisiodd pob Synod ar y mater yn ystod y flwyddyn diwethaf, i fynegi barn, gyda phob talaith ond un o blaid caniatáu cynnal priodasau i bawb yn ein capeli, os mai dyna yw dymuniad yr aelodau. Cymerodd y Gynhadledd sylw o farn yr taleithiau, a dyna oedd y penderfyniad. Cewch ddarllen mwy ar wefan yr Eglwys Fethodistaidd: https://www.methodist.org.uk/about-us/news/latest-news/all-news/conference-confirms-resolutions-on-marriage-and-relationships/

**Capeli bach i ddod at ei gilydd**
Roedd materion eraill o bwys ar yr agenda, yn ymwneud â maint yr eglwys a'n sefyllfa ariannol, sy'n dynn iawn. Pan gychwynnais i fel gweinidog cylchdaith yn 1993, roedd gan yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain 700,000 aelod. Erbyn hyn, mae'n 170,000. Roedd newidiadau yn sicr o ddigwydd ond mae'r pandemig wedi cyflymu pethau, fel mewn llawer maes arall. Ers blynyddoedd, buom yn ymddwyn fel petaem yn sefydliad mwy nag ydym ni, er enghraifft trwy ddisgwyl i gapeli bach iawn benodi trysorydd ac ysgrifennydd a swyddogion eraill. Cytunodd y Gynhadledd i gynyddu lleiafrif aelodau capel i 12, er mwyn annog capeli bach i ddod at ei gilydd (er enghraifft fel un eglwys mewn nifer o gapeli), i gydweithio.

**Mesurau eraill**
Bydd Methodist Church House yn Llundain yn cael ei werthu, a bydd y Cyfundeb yn gofyn i gapeli, cylchdeithiau a thaleithiau am gymorth i ddelio â diffyg yn ein Cronfa Bensiwn. At hynny, bwriedir lleihau maint y Gynhadledd ei hun a'i phwyllgorau, a lleihau nifer y taleithiau yn y Cyfundeb. Unwaith eto, rydym ni yng Nghymru ar flaen y gad, oherwydd inni gytuno eisoes i greu un Synod newydd yma: mae taleithiau eraill yn edrych tuag atom ni gyda diddordeb. Yn wir, bydd Eglwys Fethodistaidd y dyfodol yn feinach ac ysgafnach, ond gwn o brofiad personol fod modd symud yn haws, yn gyflymach ac yn bellach pan fydd rhywun yn ysgafnach!

**Llawenydd wrth symud ymlaen**
Er gwaethaf pawb a phopeth, mae ein gwaith a'n gweinidogaeth yn parhau. Llawenydd oedd gweld gweinidogion a diaconiaid newydd yn cael eu derbyn i Gyfundeb Llawn yng ngwasanaeth y Gynhadledd ar y bore Sul, cyn iddynt gael eu hordeinio mewn gwasanaethau dan gyfyngiadau Covid-19 yn nes ymlaen. Yn ogystal â hynny, ar y dydd Sadwrn cyn y Gynhadledd fe ordeiniwyd y rhai a dderbyniwyd i Gyfundeb Llawn ond na chafodd eu hordeinio y llynedd. Halelwia! Cytunodd y Gynhadledd hefyd i greu swyddogaeth newydd yn y Cyfundeb i sefyll ochr wrth ochr â gweinidogion, diaconiaid a phregethwyr lleol, sef Bugeiliaid Lleyg Lleol. (Bydd nifer o agweddau ar y swyddogaeth hon yn gyfarwydd i aelodau Synod Cymru, yn ddiddorol iawn, gan fod gennym Arweinyddion Ardal lleyg.) Mae llawer o botensial yma, ac mae'n rhywbeth sy'n cadarnhau pwyslais yr Eglwys Fethodistaidd ar Offeiriadaeth yr Holl Saint: rydym ni i gyd yn gwasanaethu Duw gyda'n gilydd. Penderfynodd y Gynhadledd hefyd y dylid cynnal cyfnod prawf ar gyfer gwasanaethau Cymun Sanctaidd ar-lein, a bydd mwy o wybodaeth a chanllawiau ar gael cyn bo hir.

Digon o newid, felly, a digon o symud ymlaen, ond fel rydym yn gwybod o'r Beibl, mae pobl Dduw yn bobl sy'n teithio o hyd ar ein pererindod nefol ar y ddaear. Mae symudiad yn arwydd o fywyd! Fy ngobaith yw y byddwn yn parhau i fod yn amyneddgar ac yn raslon tuag at ein gilydd yn ystod y flwyddyn gyfundebol newydd o Fedi 1af ymlaen, fel y mae Duw yng Nghrist yn amyneddgar ac yn raslon gyda ni – diolch iddo!



**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd**

Bydd Jennie'n ymweld â'r mannau isod yn y ddau fis nesaf, yn unol wrth gwrs â rheoliadau Covid ar yr adeg dan sylw. Boed bendith Duw ar ei gwaith ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

**Awst**
Glannau Meirion a Dyfi
8 Gwyliau
15 Gwyliau
22 Ddim ar gael
29 Cydgynulliad Greenbelt "Prospect Farm"

**Medi**
5 Bathafarn
12 Llanrhaeadr
19 Powys
26 Ar gael




# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 231**
**AWST – MEDI 2021**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
5 MEDI 2021

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr Y Parchg Sonia Hicks, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd 2021-22. Llun yn eiddo i'r Eglwys Fethodistaidd


## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y Gwyliedydd:

Ardal De Gwynedd – £300.00
Pendref, Yr Wyddgrug – £50.00

Anfonwyd cyfanswm o £350.00 yn enw Synod Cymru.

Gellir defnyddio gwasanaeth Sul Gweithredu dros Blant ar unrhyw adeg. Mae i'w gael yn: https://media.actionforchildren.org.uk/documents/Action_for_Children_Sunday_Worship_Outline_-_Bilingual.pdf

Hefyd, mae adnoddau a chyhoeddiadau ychwanegol i'w gweld yn:
https://www.actionforchildren.org.uk/resources-and-publications/promotional-materials/resources-for-methodist-fundraisers/

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.

**Marc a Margaret**
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
01978 756717
cwrteden@gmail.com

## Diolch

Hoffai Owain a Lucy ddiolch am yr holl gardiau ac e-byst ar achlysur genedigaeth eu mab Edward Wyn Morgan. Daeth Teddy i'r byd ar bnawn Iau 24 Mehefin 2021. Hefyd, yr un yw'r diolch gan y Parchg Marc a Mrs Margaret Morgan – mae Tadcu a Nain wrth eu boddau gyda'u hŵyr bach cyntaf.
**Llety'r Bugail**, Gwersyllt

## Rhoddion a Thanysgrifiadau

Diolchwn yn gynnes am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd. Diolch o galon i Bwyllgor Dydd Gweddi'r Byd am eu haelioni tuag atom.

| | |
|---|---|
| Mrs M. G. Thomas, Penmachno | £10-00 |
| Dydd Gweddi'r Byd | £300-00 |
| Dienw | £50-00 |
| Dienw | £50-00 |
| **Cyfanswm** | **£410-00** |






Y Gynhadledd Fethodistaidd, 2021

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts




**Cofio Bardd**
Y tro hwn dyma fwrw golwg ar fywyd dau o Sir Drefaldwyn y mae eu gwaith i'w weld yn *Caneuon Ffydd.* Y cyntaf yw John Cadvan Davies a anwyd yn fferm yr Allt, Llangadfan ar Hydref 1af 1846, yr ieuengaf o bedwar plentyn David a Jane Davies. Dechreuodd bregethu gyda'r Wesleaid yn 21 oed gan ddod yn weinidog teithiol yn 1871. Ef yw'r unig un i'w alw i'r weinidogaeth o hen gapel Llangadfan er i amryw o bregethwyr cynorthwyol gael eu magu yno dros y blynyddoedd. Penygroes, Sir Gaernarfon, oedd cylchdaith gyntaf Cadvan a bu'n teithio'n bennaf yn y Gogledd gan fynd hefyd i Lerpwl am gyfnod oddeutu 1891. Priododd Maggie Jones, Tyn y Pwll, Dinas Mawddwy yn 1876 ac yna Mary Ada Evans o Goed Llai yn 1882.

Yn 1900 roedd Cadvan ar y pwyllgor a gyhoeddodd Lyfr Emynau a Thonau y Wesleaid. Roedd ganddo 31 o emynau yn y llyfr hwnnw. Etholwyd ef yn Llywydd y Gymanfa Gymreig yn 1910. Testun ei araith yn Ninbych y flwyddyn honno oedd *Crefydd a Gwladwriaeth.* Ymddeolodd yn 1911 a chartrefu yng Nghroesoswallt. Etholwyd ef yn Archdderwydd yn 1923 ond byr fu ei dymor oherwydd bu farw ar Hydref 12fed 1923.

Daeth yn enwog fel bardd gan ennill tair coron yn Eisteddfodau Cenedlaethol 1884, 1886 a 1887. Roedd hefyd yn feirniad ac yn arweinydd penigamp gyda llais a allai dawelu tyrfaoedd. Rhwng 1894 a 1920 bu'n Dderwydd Gweinyddol Eisteddfod Powys ar bum achlysur. Rhestrwyd ef gan Thomas Parry gyda Tudno, Dyfed, Bardd Berw a Pedrog fel pum bardd mwyaf cynhyrchiol eu cyfnod.



Tri emyn gan Cadvan sydd yn Llyfr Emynau 1929. Mae emyn 287, *Mae llais efengyl fwyn,* a 434, *Dilynaf Iesu mawr* yn adnabyddus tra bo emyn 567, *Arwain fi o dŷ'r caethiwed* yn ddieithr i lawer. Un emyn o'i waith sydd yn *Caneuon Ffydd* sef 648, a ddefnyddir ar achlysur ordeinio. Roedd yr emyn yn Llyfr 1900 ac yn Llawlyfr Moliant 1950.

Mae sawl darlun trawiadol ar gael o Cadvan gan John Thomas ond efallai mai'r portread geiriol ohono yw un Tegla Davies yn *Gyda'r Blynyddoedd.* Meddai Tegla: '*Gŵr urddasol, mawreddog, nawddogol, oedd yn dawel sicr o'i anfarwoldeb ei hun a hynafiaeth Gorsedd y Beirdd.*'

**A Chofio Cerddor**
Ganwyd Joseph David Jones (1827-70) ym Mryn Crugog, Cefncoch yn drydydd plentyn i Joseph a Catherine Jones. Roedd ei dad yn amaethwr, gwehydd a phregethwr gyda'r Wesleaid. Daeth talentau Joseph i'r amlwg yn fuan. Er nad oedd ei dad am iddo wastraffu amser gyda cherddoriaeth, mae sôn amdano yn trefnu gwersi cerdd a chanu yn Nolanog ac yntau yn ddim ond 14 oed. Symudodd y teulu i Pantgwyn ac erbyn 1840 roedd Joseph wedi cyhoeddi *Y Pêr Ganiedydd,* sef casgliad o donau a fu'n llwyddiant mawr. Yn y casgliad hwnnw y cyhoeddwyd y dôn *Capel y Ddôl* am y tro cyntaf. Mae'r dôn yn Llyfr 1929 ac yn awr yn *Caneuon Ffydd,* rhif 576. Cenir y geiriau *Ti yr hwn a wrendy weddi* ac *Arglwydd arwain drwy'r anialwch* arni.

Wedi marw mam Joseph yn 1847, fe ailbriododd y tad ond gan nad oedd y berthynas rhwng y wraig newydd a'r mab yn dda, symudodd i Dywyn, Meirionnydd a chael swydd fel athro yno. Wedi cyfnod byr mewn coleg, cafodd swydd fel prifathro Ysgol Frutanaidd Rhuthun yn 1851 a gofal 200 o blant ganddo. Yn 1860 rhoddodd ei fryd ar briodi Catherine Daniels a gwnaeth hynny er bod ei thad, Owen Daniels, Penllwyn, Tywyn yn hollol yn erbyn y briodas. Cafodd pedwar o feibion y briodas yrfaoedd llwyddiannus. Daeth Owen Daniel Jones yn bennaeth ar gwmni yswiriant, tra bu Syr Henry Haydn Jones yn A.S. Rhyddfrydol sir Feirionnydd o 1910 hyd 1945. Aeth y ddau fab arall i'r weinidogaeth sef y Parchedig Ddr John Daniel Jones a'r Parchedig Daniel Lincoln Jones.

Yn 1865 sefydlodd Joseph ysgol breifat Clwyd Bank, Rhuthun a bu'n fenter lwyddiannus iawn. Ond diwedd trist a ddaeth i'w ran pan fu farw ei blentyn ieuengaf yn 1870 o'r teiffoid. Daliodd y tad y clwy' hefyd a bu farw yn 43 mlwydd oed. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw'r nifer fawr o gasgliadau cerddorol a gyhoeddwyd ganddo ynghyd â'r gwaith a wnaeth gyda Tanymarian ar Lyfr Tonau ac Emynau 1868. Mae R D Griffith, Hen Golwyn, yn nodi yn y Bywgraffiadur y bu J D Jones yn gyfrifol am drefnu a golygu casgliad o donau ac anthemau at wasanaeth y Wesleaid. Trist yw gweld fod y llyfr wedi'i gyhoeddi yn 1872 sef dwy flynedd wedi i'r awdur farw. Y deyrnged orau iddo yw'r sylw a roddodd Huw Williams yn *Canu'r Bobol* i 13 o'i unawdau poblogaidd. Ar ganol y ganrif, meddai Huw Williams, yr unig ganeuon gwreiddiol Cymraeg y gellid eu canu ar lwyfan yr Eisteddfod a'r Cyngerdd oedd y rhai o waith J D Jones ac Owen Alaw.

Am reswm nad yw'n amlwg i mi, nid yw enw J D Jones yn ymddangos yn rhestr enwogion Atlas Hanesyddol Maldwyn. Dyma geisio gwneud iawn dros yr absenoldeb hwnnw gan gofio bod Beddgelert, Harlech, Gwalchmai a Capel y Ddôl yn cadw ei enw yn fyw yn *Caneuon Ffydd.*



# Er cof am y diweddar Barchedig John Bryn Jones

Ganwyd John Bryn Jones ar 9 Tachwedd 1924 yn Nolgellau, i Mary Elizabeth a John Thomas Jones. Fe'i magwyd yng Nghorris yn yr hen Sir Feirionnydd. Ef oedd yr hynaf o bump o fechgyn: Bryn, William, Leslie, Robert a Dewi.

Bu farw tad Bryn pan nad oedd ond un ar ddeg oed. Gadawodd yr ysgol yn bedair ar ddeg i weithio ar fferm a hefyd am gyfnod yn y diwydiant coedwigaeth er mwyn helpu i gynnal ei fam a'i frodyr. Rhoddodd y profiadau anodd a gafodd yn ei ieuenctid sail i'w gymeriad a'i egwyddorion drwy gydol ei oes.

Ymhen amser, ymunodd Bryn â'r Awyrlu; roedd yn gwrthwynebu rhyfela ond eto'n teimlo cyfrifoldeb i wasanaethu. Fe wasanaethodd am bedair blynedd i gyd, tair ohonynt yn yr India ble cafodd ei alw i wasanaethu Duw, a soniai Bryn yn aml am ei atgofion o'r wlad a'r argraff a wnaeth arno. Dychwelodd i Gymru ac yna aeth i Goleg Cliff i baratoi ar gyfer y weinidogaeth. Ym 1949 fe'i derbyniwyd yn ymgeisydd am y weinidogaeth yn yr Eglwys Fethodistaidd a chafodd ei addysg ddiwinyddol yng Ngholeg Handsworth, Birmingham. Ymhyfrydai yn y ffaith iddo gael ei ordeinio gan un o'i arwyr sef yr Arglwydd Donald Soper, ym Mehefin 1954 ym Methesda.


Cyfarfu Bryn â Vera ym Mangor ym Mhwyllgor Ieuenctid y Capel; hi oedd yr Ysgrifennydd a Bryn oedd y Cadeirydd. Buont yn canlyn yn selog am gyfnod a phriodi yng nghapel Moriah, Bangor ar 27 Gorffennaf 1955. Dechreuodd eu bywyd priodasol yn Ystumtuen ble ganwyd Tudur ym 1956; symud i Bentre Helygain ble ganwyd Deiniol ym 1958. Symud eto i Aberffraw ble ganwyd Nia ym 1961 ac Angharad ym 1965. Daethant i'r Wyddgrug ym 1966 ac yno bu Bryn yn weinidog am flynyddoedd lawer yng nghapel Pendref.

Yn ogystal â bywyd prysur fel gweinidog mewn sawl cylchdaith, treuliodd gyfnod fel Gweithiwr Cymdeithasol gyda Chynghorau Sir y Fflint a'r hen Sir Clwyd. Bu hynny hefyd yn brofiad amhrisiadwy iddo. Yn yr un cyfnod, treuliodd ei amser rhydd yn astudio cwrs gradd yn y Gwyddorau Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored. Yn dilyn pedair blynedd galed, balchder mawr iddo oedd ennill y cymhwyster hwn.

Yn 1978 newidiodd bywyd Bryn yn ddramatig pan gafodd drawiad ar y galon ac yn sgil hynny fe wynebodd chwe llawdriniaeth ddargyfeiriol ym 1988. Rhoddodd hynny fywyd newydd iddo ac roedd yn hynod ddiolchgar am yr ail gyfle ac am ofal y gweithwyr iechyd yn ogystal ag am yr holl gariad a chymorth a gafodd gan Vera.

Byddai Bryn bob amser yn mwynhau'r Pethe a dilyn materion cyfoes ac fe hoffai gadw'i fys ar y pŷls. Ei hoff raglenni oedd Mastermind ac University Challenge ac roedd hefyd yn hoff iawn o Noson Lawen a Dechrau Canu ar S4C. Câi fwynhad o arddio, darllen, lliwio a sgetsio, gwrando ar gerddoriaeth o bob genre a dilyn snwcer a phêl-droed. Bu'n aelod o Gôr Meibion Machynlleth am gyfnod, ac yn ddiweddarach Côr Trelawnyd a Chantorion Glan Alun. Bu'n ddiflino yn ei gefnogaeth i Gyngor Eglwysi'r Wyddgrug, Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beiblau, Oxfam, Sefydliad y Galon ac amryw o fudiadau eraill ar hyd y blynyddoedd. Yn ystod y cyfnodau clo diweddar, daeth yr ardd a byd natur yn bwysicach nag erioed, ac roedd Bryn wrth ei fodd pan sylwodd un diwrnod ar ddryw bach yn paratoi i nythu mewn basged grog wrth ffenest y llofft – rhyfeddod y pethau bychain!

Bu Bryn yn ffodus iawn i gael byw bywyd hir a llawn ac roedd yn ddiolchgar iawn am hynny ac am y gofal tyner a gafodd gan ei deulu. Bu'n gyfaill da i lawer ac fe deimlir ei golli mewn llawer cylch nid lleiaf Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd. Un o'i gymwynasau mawr oedd cyfrannu ysgrifau yn rheolaidd i'r *Gwyliedydd* dros nifer o flynyddoedd ac roedd y golygyddion yn gwerthfawrogi ei hynawsedd bob amser. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu colled.



# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Pendref, Dinbych*

**OEDFAON BENDITHIOL**
Er gwaethaf problemau Covid-19 daliwn i addoli yma ym Mhendref. Yn ystod Mai a Mehefin cawsom oedfaon bendithiol dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Ddr Jennie Hurd a David Barker Jones. Yn anffodus oherwydd materion personol ni fu'n bosibl i'r Parchedig Glyn Thomas nac Elizabeth Jones fod gyda ni ond gofalwyd am saith Sul gwag gan chwech o'n haelodau sef Heulwen Ellis, Bethan Roberts, Hywel Evans, Gwyn Williams, Elfed Evans a Medwyn Jones a mawr yw ein diolch iddynt. Diolchwn hefyd i Heulwen ac Elfed, blaenoriaid y mis yn ystod Mai a Mehefin, ac i Vera am gyfeilio.

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Dydd Sul 9 Mai trefnwyd gwasanaeth Cymorth Cristnogol. Cafwyd casgliad arbennig a gwerthwyd nifer o jariau marmaled a jam a baratowyd gan Elfed Evans a Vera Savage. Daeth y cyfanswm ariannol i £230.

**CANU MAWL**
Yn hwyr pnawn Sadwrn 19 Mehefin derbyniwyd gwybodaeth fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddai modd canu emynau mewn addoldai o ddydd Sul 20 Mehefin cyn belled â bod y gynulleidfa yn gwisgo mygydau a bod asesiad risg wedi'i wneud ar gyfer canu. Felly y bore wedyn cytunodd ein cynulleidfa yn unfrydol ein bod am ailddechrau canu emynau. Hyfrydwch oedd gweld yr addolwyr yn mwynhau canu.

Dydd Sul 27 Mehefin roedd Cymanfa Gydenwadol Ardal Dyffryn Clwyd i'w chynnal yma ym Mhendref ond am yr ail flwyddyn yn olynol, oherwydd y pandemig, cafodd ei gohirio. Er hynny trefnodd Heulwen, Bethan a Vera i ni gael 'mini cymanfa' yn ystod yr oedfa ac unwaith eto roedd yn fraint cael canu mawl i Dduw.

**CYDYMDEIMLO**
Trist oedd inni fel Eglwys glywed am farwolaeth Patrick Kelly, un o hogiau Dinbych, mewn damwain beic modur. Bu Patrick yn weithgar iawn yn gwneud y gwaith plastro ar y Tŷ Capel. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth y Parchedig W I Cynwil Williams, gweinidog y Capel Mawr yma yn Ninbych rhwng 1965 a 1976. Gweinidog mawr ei barch yn y dref ac yn gyfaill i ni yma ym Mhendref a Salem. Cydymdeimlwn â'i weddw Carol a'r teulu.

**DYMUNIADAU DA**
Ym mis Mehefin bu i'n haelod hynaf, y Parchedig Cledwyn Parry, ddathlu ei ben-blwydd yn 97oed. Pob dymuniad da i chi oddi wrthym ym Mhendref. Dymuniadau gorau hefyd i'n holl aelodau sydd am wahanol resymau yn methu bod gyda ni.

**FFAIR HYDREF**
Eto eleni, yn anffodus, ni chynhaliwyd ein Ffair Wanwyn. Gobeithiwn yn fawr iawn y bydd y sefyllfa wedi gwella digon i ni gael cynnal ein Ffair Hydref arferol ym mis Tachwedd.

**GOHEBYDD .** MARY JONES

### *Ebeneser, Dolgellau*

**CYFARFOD AM SGWRS**
Rydym wedi bod yn cyfarfod yng ngardd Caffi Pat Owen am 7.00 o'r gloch bob nos Fawrth o'r 22ain o Fehefin tan ddiwedd mis Gorffennaf. Amser anffurfiol a chyfle i drafod y darlleniadau a'r myfyrdod o'r Sul blaenorol, i weddïo ac i gael sgwrs gyffredinol efo'n gilydd.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at y Chwaer Eluned Williams, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Hefyd rydym yn parhau i feddwl am aelodau eraill nad ydynt yn mwynhau llawn iechyd.

**CARTREF NEWYDD**
Dymuniadau gorau i Mrs Megan Abbey sydd wedi symud i gartref preswyl Llys Cadfan, Tywyn.

**GARDD Y CAPEL**
Mae gardd y Capel yn edrych yn hardd a lliwgar. Mae ein diolch i Mr Hugh Humphreys a'r teulu a diolch hefyd i bawb arall sy'n helpu i'w chadw mor daclus a hyfryd.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

*[Hoffai ei holl gyfeillion yn Synod Cymru ddymuno'n dda i'r Parchedig Patrick Slattery, Dolgellau, a dderbyniodd ganiatâd gan yr Eglwys Fethodistaidd yn y Gynhadledd eleni i drosglwyddo i weinidogaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Boed bendith Duw ar ei waith.]*

### *Pisgah, Rhiwlas*

**CYDYMDEIMLO**
Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Gareth Williams a'r teulu. Mae Gareth wedi colli ei daid yn ddiweddar.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Morgan Huw Evans ar ennill gradd BSc yn ddiweddar, ac yn yr un modd i'w fam Rhian Evans-Hill ar ei phenodi i swydd newydd sef Swyddog Diogelu Synod Cymru. Mae Rhian eisoes yn gweithio fel Swyddog Diogelu i Wales Synod, yn ogystal.

**DYMUNO GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cyfarchion at Mrs Dilys Parry, gan ddymuno gwellhad llwyr iddi wedi iddi syrthio yn ddiweddar.
**GOHEBYDD .** EINIR WILLIAMS

### *Eglwys Unedig Colwyn*

**DYMUNIADAU GORAU**
Rydym yn falch o glywed fod Marian yn gwella ar ôl torri ei braich mewn codwm yn ddiweddar.

**CYDADDOLI**
Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi cael y pleser o ymuno mewn gwasanaethau hefo'n cyfeillion yn Ebeneser Hen Golwyn. Diolch iddynt am eu cwmni a'u croeso cynnes.
**GOHEBYDD .**
RHIANNON JONES

### *Bethel, Amlwch*

**CYDADDOLI UNWAITH ETO**
Dymunol oedd medru ailafael yn yr addoliad arferol ar ôl cyfnod mor rhyfedd a hir. Dr Huw Tegid Roberts oedd y cennad effeithiol yn ein hoedfa gyntaf, a'r oedfaon wedi hynny dan ofal Eirlys Williams, Creigiau, a'r Parchedig Ddr Jennie Hurd. Bendith oedd medru canu – er i hynny fod trwy fwgwd! – gan fod canu'n cyfoethogi addoliad cymaint. Hyderwn y gallwn barhau gyda'r addoliad ac y cawn ni'n fuan weld yr aflwydd yn diflannu o'r tir. Hoffem anfon ein cyfarchion hefyd at ein cyd-aelodau yn yr Ardal.
**GOHEBYDD .** LEN THOMAS



### *Tabernacl, Llanfyllin*

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Tom a Mair Ellis ar achlysur dathlu eu priodas ddiemwnt ar 29 Gorffennaf, a phob dymuniad da iddynt am flynyddoedd eto o iechyd a hapusrwydd gyda'i gilydd. Mae'r ddau ohonynt wedi bod yn asgwrn cefn i'r Tabernacl ar hyd y blynyddoedd. Diolch o galon, Tom a Mair.

**GWELLHAD**
Anfonwn ein cofion at Mrs Ann Jones, Llawrycwm, a gafodd driniaeth yn yr ysbyty beth amser yn ôl. Gwellhad llwyr a buan yw ein dymuniad i chi, Ann. Parhau yn yr ysbyty ar hyn o bryd y mae Mrs Margaret Blainey, gan araf wella. Mae ei chymdogion, a'i chyfeillion yn Llanfyllin a Phontrobert, yn ei cholli'n fawr ac yn edrych ymlaen at ei gweld yn fuan. Anfonwn ein cofion cynnes atoch, Margaret.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion annwyl a chynnes at Mrs Gwyneth Lewis, gweddw'r Parchedig Iwan Lewis, sydd bellach wedi symud i'r De ac yn cartrefu yn Abercraf, heb fod ymhell oddi wrth ei merch, Ruth, a'r teulu.

**CANU MAWL**
Dyna braf yw cael canu unwaith eto yn ein gwasanaethau, er mai digon anodd yw gwneud hyn tra'n gwisgo mwgwd!
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

### *Ebeneser, Eglwysbach*

**BEDYDD**
Ar fore Sul y 4ydd o Orffennaf, bedyddiwyd Robin Brynmor Idris Nutting, mab Edward ac Eurgain a brawd bach i Hari, gan y Parchedig Trevor Hoggard. Boed bendith arnoch fel teulu. Hwn oedd gwasanaeth olaf Trevor yn Ebeneser cyn dychwelyd i Seland Newydd. Dymuniadau gorau iddo ef a'i briod Cathie.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER



### *Ebeneser, Treuddyn*

**CYDADDOLI ETO YN EBENESER**
Er mawr lawenydd i ni i gyd, rydym wedi dechrau cynnal gwasanaethau yn y capel unwaith eto ar ôl cyfnod o bymtheg mis pan fuom yn gaeth oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Braf iawn oedd gweld deunaw yn ein gwasanaeth cyntaf ar 13 Mehefin o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i'r Parchedigion Jennie Hurd a Marc Morgan am ddod atom i arwain ein haddoliad yn ystod Mehefin a Gorffennaf.

**ER COF ANNWYL**
Gyda thristwch mawr y cyhoeddwn farwolaeth Mrs Eunice Griffiths ar yr 22ain o fis Mai. Bu farw'n dawel yn Ysbyty'r Wyddgrug, ar ôl treulio cyfnod hir yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Roedd Eunice yn flaenor yng nghapel Ebeneser a bu'n aelod ffyddlon a gweithgar ar hyd ei hoes. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Ebeneser o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ, ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym Mynwent y Rhos. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'i gŵr Ron a'u dau fab David a Kenneth a'u teuluoedd i gyd. Bydd colled fawr ar ei hôl, nid yn unig i'r teulu a'r capel ond hefyd i'r gymuned gyfan gan iddi gyfrannu'n helaeth i nifer fawr o gymdeithasau a phwyllgorau dros flynyddoedd lawer.

**LLONGYFARCHIADAU**
Hoffem longyfarch y Parchedig Marc a Mrs Margaret Morgan ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf ac anfonwn ein dymuniadau gorau i Owain a Lucy ar enedigaeth eu mab Edward Wyn Morgan ar 24 Mehefin.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

### *Bethel, Rhiwbeina*

**PRIODAS**
Ar 18 Mehefin hyfryd oedd gweld grŵp priodasol yn dod allan o Gapel Bethel wedi'r gwasanaeth a fu dan arweiniad y Parchedig Evan Morgan. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol i Bethan a Matthew.

**PANED A SGWRS**
Yn ystod y mis cawsom gyfle i gael paned a sgwrs ar lawnt y capel gan fod y tywydd wedi troi'n braf o'r diwedd. Roedd pob un yn falch i gwrdd ac i sgwrsio unwaith eto gan gadw pellter cymdeithasol.

**ADDOLI YN YR AWYR AGORED A DAN DO**
Bu cyfle ar 13 Mehefin i gael gwasanaeth dan arweiniad ein gweinidog yn yr awyr agored. Roedd yr haul yn grasboeth a daeth nifer dda ynghyd, llawer un wedi dod â het neu barasol. Yna ar Sul olaf Mehefin cawsom wasanaeth unwaith eto dan arweiniad ein gweinidog, y tu mewn y tro hwn, a bu cyfle i ganu emynau ac adrodd Gweddi'r Arglwydd am y tro cyntaf ers dros flwyddyn. Er na chynhelir gwasanaethau yn y capel yn ystod mis Awst, a bod Zoom yn cael seibiant hefyd, edrychwn ymlaen at ailgychwyn gwasanaethau ym mis Medi.
**GOHEBYDD .**
GWILYM E. ROBERTS

### *Ebeneser, Trefor, Môn*

**OEDFAON**
Mae ein gwasanaethau wedi dod yn ôl i drefn ers inni ailagor y capel ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi bod yma yn arwain oedfaon. Nos Sul 9 Mai cawsom gwmni'r Diacon Stephen Roe; dyma'r tro olaf iddo ddod atom cyn symud o Ddolgellau. Dymunwn yn dda iddo ef a'r teulu yn eu hardal newydd pan fyddant yn symud. Ar y nos Sul gyntaf ym mis Gorffennaf cawsom y pleser o groesawu'r Parchedig Olaf Davies atom a hynny am y tro cyntaf. Gobeithio y cawn ei gwmni eto yn y dyfodol.

**GWELLHAD BUAN**
Mae Gareth Thomas yn yr ysbyty ers rhai wythnosau. Gareth yw trysorydd y capel ers blynyddoedd – swydd y mae yn ei gwneud yn gydwybodol a diffwdan. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.
**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

### *Saron, Bethel, Arfon*

**TRAFOD Y DYFODOL**
Cawsom gyfle i drafod 'Dyfodol Cylchdaith a Synod Cymru' ar derfyn oedfa dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Richard Gillion yn ddiweddar. Roedd pob aelod wedi derbyn y ddogfen yn amlinellu'r newidiadau posib sydd o'n blaenau fel eglwysi, a chael cyfle i'w thrafod ymysg ein gilydd.

Yn sicr, mae holl aelodau Capel Saron, deg ohonom a phedwar plentyn ysgol, yn mawr obeithio – fel sawl capel arall drwy'r wlad – na fydd y fwyell yn disgyn ar ein capel ni.
**GOHEBYDD .** RJ

# Angen Gweithredu Heddiw Er Mwyn Yfory

### *Gan Glyn Tomos*




Does dim byd gwaeth na chystadleuaeth annheg. Gofynnwch i gefnogwyr tîm pêl-droed Cymru ac fe fyddan nhw'n fwy na pharod i ddweud wrthoch chi bod pencampwriaeth Ewro 2020 wedi bod yn gystadleuaeth annheg iawn. Tra bod ein cymdogion yn Lloegr wedi gallu chwarae pob gêm, ar wahân i un, gartref, a chael eu cefnogwyr yn bresennol yn y gemau hynny, ni chafodd hyn ei ganiatáu i'n tîm pêl-droed cenedlaethol.

Wedi i'r bencampwriaeth ddod i ben, a fydd UEFA, corff llywodraethu pêl-droed yn Ewrop yn sicrhau y bydd pencampwriaethau'r dyfodol yn dilyn rheolau cystadlu sydd yn deg i bawb? Ar sail profiad y gorffennol, mae'n anodd gweld hyn yn digwydd, gan mai arian ac ariangarwch sydd yn tueddu i yrru trefniadau cystadlaethau y corff pêl-droed grymus hwn dros y blynyddoedd.

Maes arall lle mae'r gystadleuaeth yn gwbl annheg, ac arian ac ariangarwch unwaith eto yn llywodraethu, yw maes tai ac eiddo. Does dim diwrnod yn mynd heibio heb inni glywed am enghreifftiau lu o deuluoedd ifanc yn methu fforddio prynu tai yn eu cymunedau, gan eu bod wedi eu prisio allan o'r farchnad dai. Mewn sawl ardal wledig mae pentrefi byw, gweithgar a Chymraeg wedi troi yn bentrefi dieithr a difywyd, lle mae'r tai yn troi i fod yn gartref ar gyfer ymwelwyr i fyw yno am gyfnod yn yr haf yn unig.

Wrth gwrs nid tai cyntaf ydyn nhw i'r prynwyr hyn. Ail dŷ ydyn nhw, ac mewn nifer o achosion, ail dŷ moethus dros ben. Cefais gyfle i alw heibio un o'r tai hyn yn ddiweddar yn fy mhentref genedigol. Roeddwn yn gyfarwydd â'r tŷ pan oedd yn eiddo i deulu lleol hyd nes bu farw'r perchennog. Pryd hynny roedd yn dŷ braf a chysurus, ond yn ddim i gymharu â safon uchel y tŷ erbyn hyn. Roeddwn wedi rhyfeddu o'i weld, ac yn rhyfeddu mwy o weld maint y buddsoddiad ariannol mewn ail dŷ! Yn amlwg ni fyddai gan gwpl lleol unrhyw obaith cystadlu mewn marchnad o'r fath. Fel dywedodd rhywun, mae hyn yn enghraifft o foethusrwydd yn amddifadu pobl eraill o rywbeth angenrheidiol.

Yn wahanol i gyndynrwydd UEFA i wneud newidiadau gyda'u twrnamaint pêl-droed, gobaith nifer ohonom yw y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar eu haddewid etholiadol diweddar a mynd i'r afael go iawn, a gweithredu ar frys, i sicrhau bod y farchnad dai yn deg i bawb ac na ddylai y mwyaf cyfoethog elwa yn sylweddol fel sydd yn digwydd ers blynyddoedd. Wrth baratoi y pwt yma mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu bwriadau ond nid ydynt wedi manylu arnynt eto. Maen nhw'n cael eu beirniadu am gydnabod bod problemau ond heb fod yn fodlon defnyddio'r gair argyfwng. Tydi amser ddim o'n plaid ni, ac ni ellir disgwyl blynyddoedd eto am ganllawiau clir i reoli'r sefyllfa.

Yn wyneb yr argyfwng tai, a oes gan ein henwadau crefyddol gyfrifoldeb i edrych arnynt eu hunain, a phenderfynu pa gyfraniad y gallan nhw ei wneud i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa a chynnig rhai atebion. Yr hyn a welwn yn llawer rhy aml yw addoldai yn cau ac yn cael eu prynu gan brynwyr o'r tu allan i'r ardal. Does dim dwy waith bod llawer mwy nag sydd ei angen o addoldai yn ein pentrefi a threfi ac fe allen nhw gael eu defnyddio mewn ffordd llawer mwy cadarnhaol er budd ein cymunedau lleol. Yn hytrach na rhygnu mlaen i gadw ein 'CAPEL NI' gan wybod bod dyfodol yr adeilad yn fregus, beth am weithredu yn gadarnhaol gan ddefnyddio adnoddau ein gilydd i sicrhau un adeilad amlbwrpas modern gyda'r adnoddau diweddaraf ar gyfer defnydd un ac oll gan ryddhau adeiladau presennol i'w haddasu er budd ein cymunedau. Mi fyddai ein hynafiaid a aberthodd i godi'r adeiladau hyn yn falch o weld parhad perchnogaeth lleol ohonyn nhw. Gawn ni fod yn ddewr, a gafael heddiw yn y cyfle euraidd yma i wneud gwahaniaeth i'r genhedlaeth nesaf.

**Holodd y *Gwyliedydd* Alun Jones, Swyddog Eiddo Synod Cymru, beth yw'r sefyllfa o ran adeiladau'r Eglwys Fethodistaidd. Dyma a ddywedodd Alun:**

Mae sylwadau Glyn Tomos ynglŷn â'r defnydd y gellid ei wneud o'n haddoldai yn ddiddorol, yn enwedig a chymaint ohonynt erbyn hyn ar gau neu ar y farchnad.

Mae pob adeilad Methodistaidd yn perthyn i Swyddfa Eiddo yr Achos ac mae'n rhaid cael eu caniatâd cyn gwerthu neu newid defnydd y capel. Ynglŷn â gwerthiant, mae'n rhaid sicrhau adroddiad ar y pris a'r modd o werthu oddi wrth Syrfëwr cymwys, a rhaid sicrhau'r pris uchaf ar y farchnad er mwyn cydymffurfio â gofynion y Comisiwn Elusennau. Wedi dirwyn achos i ben nid oes gan y cyn-aelodau unrhyw awdurdod parthed y gwerthiant.

Mae Glyn yn awgrymu ein bod yn rhoi ein hadeiladau ar waith ar gyfer y gymdeithas yn gyffredinol. Nid oes gwrthwynebiad i hyn ond tra eu bod yn perthyn i'r Eglwys rhaid cydymffurfio â'r rheolau ynglŷn ag addoldai (ni chaniateir alcohol, er enghraifft) ac mae'n rhaid i'r defnydd fod yn gymwys i addoldy.

Mae ambell bentref wedi adnewyddu eu capeli gan eu defnyddio hefyd fel neuadd bentref, swyddfa bost a chaffi. Mae hyn yn haws os yw'r gymdeithas yn berchen yr adeilad, ond nid yw hynny'n bosib, wrth gwrs, heb yr adnoddau ariannol.

Mae'r Eglwys yn ganolog yn edrych at ddefnydd arall i'w hadeiladau gwag ond mae hyn ar y foment yn cael ei yrru gan ofynion masnachol yn hytrach na chymdeithasol.

Diwedd y gân yw y geiniog, rwy'n ofni, ond ni ddylai hyn ein rhwystro rhag paratoi, fel yr awgryma Glyn, gynlluniau adeiladol, hir dymor i'n haddoldai.



# O'r Pen Yma

### gan Angharad Tomos

Oes gennych chi ddiffiniad o ffydd? Y stori a adroddir o bulpudau yn aml yw'r un am yr acrobat Blondin yn croesi Rhaeadr Nigeria. Mae'n gofyn i'r dorf, "Pwy sy'n credu mod i'n gallu gwthio berfa ar raff ar draws y gagendor?" "NI!" bloeddiodd y dorf. "Pwy sy'n fodlon eistedd yn y ferfa?" gofynnodd Blondin, a chafwyd tawelwch llethol. Un peth oedd deud, peth arall oedd rhoi eich ffydd go iawn yn y dyn, a mentro eich bywyd.

Darllenais am weithred arall o ffydd yn y papur yn ddiweddar. Tan llynedd, wyddwn i ddim ble yn y byd yr oedd Cusco. Ond deuthum yn ymwybodol o'r dref hon ym Mheriw fis Mawrth y llynedd, ar gychwyn y Pla, pan glywais fod Ffred a Meinir Ffransis yn sownd yno, ac methu gadael y fan. Bu'r disgwyl yn faith, a theimlais ryddhad pan ddaethant adre'n ddiogel.

Y stori ddiweddaraf a glywais am Cusco oedd fod pont wedi torri yno, o ganlyniad i fethu rhoi sylw iddi yn ystod y Pla. Dim yn newydd yn hynny, meddech chi, mae'n digwydd drwy'r byd wrth i bobl fethu roi sylw dyledus i lwybrau a ffyrdd. Ond pont wedi ei gwneud o raffau oedd hon, ac roedd yn 500 mlwydd oed. Ei henw yw Pont Q'eswachaka, ac mae wedi bod yn gyswllt holl bwysig i'r gymuned Huinchiri. Yn fwy rhyfeddol byth, mae'n gan troedfedd o hyd.

Mae pobl Cusco wedi penderfynu ei thrwsio, ac nid camp fechan mo hon. Yn gyntaf, rhaid cael rhaffau cryfion yn cysylltu y ddwy lan, ac yna, mae'n rhaid i rywrai mentrus grogi ar y rhain a dechrau nyddu. Bob ochr, mae criw o bobl yn dal y rhaffau, ac yn dal y rhai sy'n nyddu wrth iddynt ymarfer gwaith llaw cywrain sy'n bum canrif oed. Hawdd fyddai digalonni, rhoi'r ffidil yn y to, a dweud mai fel 'na mae hi. Felly mae pethau'n digwydd, a does dim disgwyl i bethau bara am byth.

Neu fe allwn ymwroli, penderfynu **fod** modd gwneud rhywbeth ynglŷn â sefyllfa a mynd o'i chwmpas i weithredu. Os byddaf yn ystod yr wythnosau nesaf yn tuchan ac yn cwyno wrth weld tasg yn rhy fawr i mi, dwi am gofio dyfalbarhad pobl Cusco ym Mheriw.

Byddaf yn creu darlun yn fy meddwl ohonynt yn mentro eu bywydau ar fymryn o raff uwchlaw dyffryn ac afon yn y gwaelod. Byddaf yn meddwl amdanynt yn ffurfio gwead cywrain o linyn, fel y gwnaeth eu cyndeidiau – nid yn unig er eu mwyn eu hunain, ond er mwyn cymdogaeth gyfan. Ac mi fyddaf yn cofio'r cymdogion bob ochr ar y lan, yn dal y rhaff yn dynn er mwyn cynnal y rhai dewr a fentrodd.

Mae'n ddelwedd gref. Mae'n dangos ffydd, a'r ewyllys i ddal ati – yn wyneb pob anhawster.



# Gwarchodwch Ein Gorffennol: Neges Archifydd Y Synod

### *gan Gareth Haulfryn Williams*

Mae gan y Methodistiaid Wesleaidd Cymraeg hanes yng Nghymru sydd yn ymestyn yn ôl am ddwy ganrif a mwy. Ar un adeg roedd cannoedd o gapeli Cymraeg eu hiaith gan yr enwad. Mae eu hanes yn cael ei nodi yn yr holl archifau y maent wedi eu gadael ar eu hôl – ac os oes gennym barch at ein hynafiaid yn y ffydd ac at hanes ein hardaloedd, ein cymwynas olaf iddynt yw cadw'r cofnod o'r hyn a wnaethpwyd ganddynt.

Eisoes mae llawer iawn o'r archifau hyn wedi eu hel at ei gilydd a cheir casgliadau helaeth yn archifdai'r siroedd ac yn y Llyfrgell Genedlaethol ond mae yna fylchau mawr o hyd yn yr hyn sydd ar gof a chadw. Edrychwch eto mewn cypyrddau ac ar silffoedd ein festrïoedd, a holi swyddogion yr achos i weld a oes cofnodion ganddynt hwythau. Gyda'r enwad yn wynebu cyfnod o gau llawer iawn o'r capeli Wesleaidd sydd ar ôl, dyma'r amser i edrych. Dylid hel yr holl ddeunydd o bwys a'i drosglwyddo i archifdy'r sir. Cewch groeso cynnes yno.

Ond beth sydd yn deilwng o gael ei gadw? Yn fras, unrhyw beth ar ffurf llyfr – cofrestrau bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau yn sicr, cofrestrau aelodaeth a chofrestrau'r Ysgol Sul, llyfrau cofnodion, llyfrau cownt, llyfrau eisteddleoedd, llyfrau arweinwyr dosbarth a chofnodion cymdeithasau'r achos megis cylch llenyddol. Hefyd, mae'n bwysig iawn cadw dogfennau fel gweithredoedd a chynlluniau adeiladu; a phapurach megis planiau pregethu, arolygon pum-mlwydd a gohebiaeth am faterion o sylwedd. Dylid achub un copi o bob Adroddiad Blynyddol hefyd. A pheidiwch â thaflu dim sydd dros 100 mlwydd oed. Dyma ddeunydd crai hanes yr achos – ac i raddau sylweddol, hanes yr ardal lle bu'r capel yn rhan bwysig o'r dystiolaeth Gristnogol am flynyddoedd lawer. A chyfoeth go iawn fyddai pamffled am hanes yr achos, neu gopïau o hen ddarlithoedd.

Wedi didoli'r uchod mi fydd llawer o bapurau mân ar ôl – nid oes angen dyblygu'r hyn sy'n cael ei gadw, na chadw pethau dibwys – ac mi gaiff y swyddogion gael gwared â'r rhain yn weddol ddigydwybod! Ond cadwch ddeunydd newydd (llai na 7 oed) am y tro; doeth efallai fyddai eu rhoi yn nwylo swyddogion yr Ardal cyn cau'r drws am y tro olaf. Yn yr un modd, dylid gofalu bod unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â buddsoddiadau'n cael eu trosglwyddo i'r swyddogion hynny.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Bethel, Prestatyn

**TÎM DUW**
A ninnau yng nghanol yr 'Euros' pêl-droed, cawsom neges arbennig i'r plant gan ein bugail y Parchedig Brian Huw Jones. Dywedodd pa mor bwysig ydyw i bawb mewn tîm pêl-droed wneud ei ran a bod yr un peth yn wir amdanom ninnau yn yr Eglwys gan ein bod yn rhan o Dîm Duw. Mae angen i bob un ohonom, o'r hynaf i'r ieuengaf, chwarae ein rhan! Aeth y plant ati wedyn i wneud posteri Tîm Duw yn yr Ysgol Sul. Dyma Ifan a Noa yn dangos eu posteri gyda'u hathrawes Ysgol Sul, Anti Jane.



**AR GÂN**
Erbyn hyn cawn ganu yn yr oedfaon eto ac, er ein bod yn gwisgo mwgwd, mae'n hyfryd teimlo'r hapusrwydd a'r brwdfrydedd wrth foli Duw mewn emyn. Mae'r awyrgylch yn hollol wahanol a diolchwn am y fraint.

**BANC BWYD PRESTATYN**
Mae'r rhoddion misol o fwyd ac arian i Fanc Bwyd Prestatyn wedi bod yn anhygoel. Diolch o galon i bawb sydd yn cyfrannu.

**DEUAWD**
Llongyfarchiadau i Alys a Beth ar ennill cystadleuaeth y deuawd, blwyddyn 6 neu iau, yn Eisteddfod yr Urdd. Er bod yr Eisteddfod ar ffurf wahanol a'r cystadlu yn cael ei wneud drwy fideo, yr un oedd y mwynhad. Yn ogystal â'u gwylio yn perfformio, cawsom eu gweld ar gyfarfod Zoom yn sgwrsio gyda'r cyflwynwyr a'r beirniad.



**CROESO I'R BYCHAN**
Ar 17 Mehefin ganed mab bach, Eben Elis, i Liam a Manon, brawd bach i Noa a Casi. Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob bendith arnoch fel teulu.



**DYMUNIADAU GORAU**
Mae amryw o'n haelodau yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd. Mae Mrs Eluned Owen a Mrs Eirlys Davies wedi treulio amser yn yr ysbyty ond maent ill dwy gartref erbyn hyn ac yn gwella. Fe gofiwn am bob un ohonoch yn ein gweddïau.

**CYDYMDEIMLO**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mr Islwyn Parry, a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar yng nghapel Gwaenysgor tan i'r capel gau yn ddiweddar ac yna yma ym Methel. Fe gofiwn amdano fel gŵr bonheddig hynod o hwyliog a charedig. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei wraig Pat a'r teulu oll.



**RADIOGRAFFYDD**
Llongyfarchiadau mawr i Lowri, merch Grahaeme a Trish, ar ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Radiograffiaeth. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd fel radiograffydd yn Ysbyty Glan Clwyd.

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## Ardal Bathafarn

**CYDYMDEIMLO**
Trist iawn oedd clywed y newydd am farwolaeth Ifor Parry, Tŷ Ucha'r Llyn, cymeriad hoffus, llawn hiwmor a fu'n weithgar iawn yn Ardal Bathafarn a hen Gylchdaith Corwen. Ein cydymdeimlad dyfnaf â'r teulu. Estynnwn ein cydymdeimlad yn ogystal ag Edwina, o golli perthynas sef Gwenda Hughes, Derwen gynt, cymeriad annwyl a chadarn iawn. Gyda thristwch hefyd y clywsom am farwolaeth y Parchg Bryn Jones, Yr Wyddgrug, mor fuan ar ôl colli Vera ei briod. Roedd yntau yn gymeriad hoffus a theyrngar iawn a bydd y golled ar ei ôl yn enfawr i'w deulu ac i'r Eglwys Fethodistaidd. Cofiwn pa mor fendithiol oedd ei arweiniad bob amser.

**NEWID AELWYD**
Dymunwn y gorau i Gretta Davies sydd wedi symud o Gartref Dolwen i gael gofal yn Wrecsam. Rydym yn meddwl llawer amdanoch ac mae cyfeillion Bathafarn yn anfon eu cofion anwylaf atoch. Cofion cynnes iawn hefyd at Ifor Parry sydd yn derbyn gofal yng Nghartref Plas Gwyn; at Mrs Wynne a fu yn yr ysbyty; hefyd at Olwen Griffiths ac eraill nad ydynt yn mwynhau iechyd.

**GWASANAETHAU**
Roedd Mehefin 13eg yn ddiwrnod i'w gofio yma yn Ardal Bathafarn gan mai dyna'r tro cyntaf ers Mawrth 2020 i ni gynnal oedfa. Roedd pawb wrth ei fodd o weld ein gilydd a chynnal sgwrs o fewn y cyfyngiadau sydd yn parhau. Cynhaliwyd munud o ddistawrwydd i gofio yr holl bobl a fu farw ac sydd wedi dioddef oherwydd Covid-19. Ein diolch cywiraf i Rhian a Rhodri am eu paratoadau manwl yng nghapel Bathafarn er mwyn sicrhau diogelwch a'r un modd i gyfeillion Glyndyfrdwy am eu paratoadau hwythau. Roedd y gwasanaethau cyntaf dan ofal Elizabeth, gyda Rhian yn chwarae'r emyn-donau. Daeth Enid â CD i'w rannu â ni yn oedfa Glyndyfrdwy. Roedd yr oedfaon yn fendithiol iawn: awn ymlaen gyda diolchgarwch a gobaith.

**DATHLU**
Dymuniadau gorau i Lynne a Gareth Hughes ar enedigaeth gor-ŵyr yn Sydney, Awstralia, mab i Gareth a'i gymar Ali. Pob bendith ar y bychan sef Cai Elis a dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

*[Dymuna'r Gwyliedydd wellhad llwyr a buan i Bob, gŵr Elizabeth. Pob dymuniad da.]*



## Shiloh, Tregarth

**OEDFAON**
Dyna braf ydi cael dweud fod drysau Shiloh ar agor! Diolch i chi i gyd am eich ffyddlondeb. Hyfryd ydi cael bod mewn oedfa ymysg ffrindiau a theulu agos Shiloh. Ymysg y rhai a fu'n arwain oedfaon yn ddiweddar y mae'r Parchedigion Richard Gillion, Philip Barnett, Dafydd Coetmor Williams a Jennie Hurd, yn ogystal ag Ellie Jones, Nerys Griffiths a Glyn Owen. Braf oedd cael croesawu Catherine Barnett a gwych oedd gweld ei bod wedi gwella; anfonwyd cofion cynnes hefyd at yr hogiau Tim a Simon a'u teuluoedd. Diolch i bob un ohonoch am oedfaon bendithiol. Beth well hefyd na chael clywed sain yr organ unwaith eto dan ddwylo medrus ein horganydd, Wynn Williams.

**GWELLHAD**
Cofiwn am y rhai nad ydynt yn medru troi mewn i'r gwasanaethau. Er nad ydych yn medru mynychu'r oedfa byddwn yn meddwl amdanoch i gyd. Dymunwn well iechyd i'n trysorydd, Eirwen Williams, nad yw wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar. Diolchwn iddi hefyd am ei gwaith diflino ac i'r swyddogion eraill am eu gwaith hwythau.

**LLWYDDIANT YR IFANC**
Llongyfarchiadau i ieuenctid Shiloh sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau ysgol a choleg. Mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn anodd iawn i bob un ohonoch a llongyfarchwn chi ar eich camp. Enillodd Gwynfor Deiniol radd mewn Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg o Brifysgol Caerwysg – ardderchog, Gwynfor. Da iawn oedd clywed yn ogystal am lwyddiant Esme a Luke Crowe, Hannah Williams, Morus Sanderson, Gwenlli Sanderson, Cerys Elen, Shwnamis Efans, Nel Mai a Myfi Celyn yn y gwahanol arholiadau. Llongyfarchwn bawb ohonoch; mae teulu'r Ysgol Sul yn falch iawn ohonoch i gyd.

**LLAIS O GANADA**
Ar raglen Geraint Lloyd ar Radio Cymru ym mis Gorffennaf cawsom gyfle i glywed llais bachgen fu'n aelod o Ysgol Sul Shiloh am rai blynyddoedd, sef Gwydion Temple Morris. Cofiwn i Gwydion a'i frawd Llŷr fod yn ffyddlon iawn a chymryd rhan yn raenus yn y gwasanaethau yn Shiloh. Bellach mae Gwydion yn gweithio ym myd y cyfryngau ac yn sgwennu a pharatoi ffilmiau o bob math. Cofion atoch eich dau yn Halifax, Nova Scotia, ac at eich rhieni Siân a Martin.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

*[Fel eglwys, mae'n ddrwg iawn gennym wybod am waeledd Glyn, gŵr Gwenda, a byddwn yn cofio amdanoch yn gyson yn ein gweddïau ar adeg mor anodd i chi oll fel teulu. Pob dymuniad da a llongyfarchiadau hefyd ar gyrraedd carreg filltir arbennig yn eich hanes, Gwenda a Glyn, sef dathlu Priodas Aur.]*

## Sant Paul, Aberystwyth

**OEDFAON**
Gyda Phlan Mehefin i Awst rydym wedi ailddechrau cwrdd mewn oedfa yn y capel yn gyson. Trefnwyd oedfa yn Sant Paul bron pob Sul ym Mehefin a Gorffennaf. Wedyn trwy gydol mis Awst byddwn yn dilyn ein harfer cyn y pandemig o gydaddoli gyda'r capeli Cymraeg eraill yn Aberystwyth.

**FFARWEL**
Bydd ein gweinidog, y Parchedig Marty Presdee, yn ymddeol yr haf hwn. Diolchwn iddi yn ddiffuant iawn am ei gofal drosom. Dymunwn bob bendith ar Marty a'i phriod John yn eu cartref newydd.

**ORGANYDD**
Oherwydd cyflwr ei lygaid bu'n rhaid i Lionel Madden ymddeol o'i swydd fel organydd Sant Paul. Mae wedi bod yn organydd yma am dros ugain mlynedd.

**GWAELEDD**
Erbyn hyn mae Emily Lloyd Jones yn ôl yn derbyn gofal yn Abermad wedi cyfnod yn Ysbytai Bronglais a Thregaron. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddi hi ac i aelodau eraill sy'n cael bywyd yn anodd oherwydd salwch neu oedran.

**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN

## Salem, Rhyd y Foel

**PROFEDIGAETH**
Rydym yn cydymdeimlo ac yn anfon ein cofion at Catherine Blythin a'r teulu ym marwolaeth modryb i Catherine yn 97 oed sef Blodwen Griffiths. Roedd Blodwen yn byw yng Nghaernarfon lle bu'n aelod ffyddlon yng nghapel Ebeneser. Coffa da amdani.

**CANU YN Y GWASANAETH**
Yn dilyn llacio ychydig ar y cyfyngiadau rydym wedi cael caniatâd i ganu yn y gwasanaethau er ei bod dal yn hanfodol bwysig gwisgo gorchudd wyneb a chadw pellter. Ar hyn o bryd ni chaniateir cael paned a sgwrs yn y festri wedi'r oedfa ond fe wnaethom benderfyniad, gan fod y tywydd yn fwy ffafriol, i ddod â phaned mewn fflasg a chadair haul a chael sgwrs dros baned yn y maes parcio neu ar y marian, gan gadw pellter wrth gwrs.

**RHAGLEN DECHRAU CANU**
Ar 8 Mehefin, yn dilyn cyhoeddi cyfrol arall o waith Dr Prydwen Elfed Owens yn dwyn y teitl *Gwawr wedi Hirnos. Fy Nhad sydd wrth y llyw,* bu Lisa Gwilym a chriw S4C yn Salem i recordio cyfweliad gyda Prydwen ar gyfer Dechrau Canu Dechrau Canmol, yn ymwneud â chynnwys y llyfr. Pan oedd hi'n ifanc bu i Prydwen a'i rhieni ymgartrefu yng Nghartrefle sef tŷ'r gweinidog ar y pryd, am gyfnod o bum mlynedd fel oedd y drefn gyda'r Wesleaid pan oedd ei thad, y Parchedig H D Williams, yn weinidog mawr ei barch yn Salem. Cyfnod hapus iawn yn ei bywyd, er yn ddiarwybod i Prydwen a'i mam roedd ei thad yn dioddef o afiechyd meddwl. Oherwydd fod gan Prydwen atgofion melys o'r cyfnod fe benderfynwyd y buasai Salem a Chartrefle yn fan addas i gyfweld â hi ac i drafod cynnwys y llyfr a'r nod sef codi ymwybyddiaeth a cheisio dileu y stigma a fu ynghlwm â'r cyflwr. Cytunodd llawer o unigolion adnabyddus i rannu eu profiadau personol ac mae hwn yn llyfr gwerthfawr iawn. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu yn yr Hydref ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn.

**AWYR LAS**
Mae John Roberts, Ty'n Ddôl, Dawn wedi ysgrifennu llyfryn diddorol o hanes Dawn dros y blynyddoedd. Mae elw y llyfryn yn mynd tuag at achos sydd yn golygu llawer i John a'r teulu sef Awyr Las. Mae wedi gwerthu nifer da o gopïau erbyn hyn. Da iawn chi, John!

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE



# Wrth fynd heibio

## *gan William H. Owen*

Ymgyrch dros degwch i bobl ifanc fedru dewis cartref yn eu bro eu hunain a welsom yn ddiweddar. Roedd y gri i'w chlywed yn uwch yn Nefyn a'r cyffiniau nag unlle arall. Wrth i'r gwrthdystio gynyddu yn erbyn y codiad afresymol ym mhrisiau tai yng nghefn gwlad daeth pentref y Pistyll dan y chwyddwydr, yn benodol cyn-gapel Tom Nefyn, oedd wedi cau ers tro.

Mae hanes capeli o'r fath yn gwbl gyfarwydd. Aeth yr aelodaeth yn wan ac yn sgil hynny y gynulleidfa, a neb bron ar ôl i forol am yr adeilad a gwarchod ei do. Oedd, roedd hyn yn wir am gapel yr enwog Tom Nefyn Williams, yr oedd ei benddelw bychan ar y wal allanol cyn ei dynnu a'i roi ar ei fedd. Nid oedd dim i arweinwyr yr enwad yn y rhan hon o Gymru ei wneud ond tynnu'r baich hwn oddi ar gefnau'r aelodau, ei gau a'i werthu.

Ar y dechrau credwyd y byddai'n cael ei droi yn dŷ parhaol ond yn y diwedd cafwyd caniatâd i'w droi'n dŷ haf. Wrth iddo fynd ar werth eto y sbardunwyd rhai yn y gymuned leol i godi cronfa i'w brynu i'w wneud yn ganolfan gymdeithasol. Mae'n hysbys beth a ddigwyddodd – doedd y gronfa ddim hanner digon i brynu lle a werthwyd mewn ocsiwn am grocbris o £257,000.

Wrth agor cronfa roedd yn ddifyr iawn fod yr enw Tom Nefyn wedi ei ddefnyddio. Er fod capel Bethania wedi cau, 'Achub capel Tom Nefyn Pistyll rhag ei droi yn Dŷ Haf' oedd y slogan ar y gwefannau cymdeithasol. Prin y byddai'r rhai oedd yn ymwneud â'r apêl yn ei gofio (nac wedi mynychu ei gapel o bosib!) ond roedd ei hanes yn ddigon byw iddynt ei ddyrchafu fel rhywun pwysig yn eu golwg, pwysicach nag enw'r capel.




Pan oeddwn i'n fachgen ysgol roedd yr enw Tom Nefyn yn fyw iawn er bod yr holl gythrwfl a achosodd yn y Tymbl wedi digwydd ddeugain mlynedd ynghynt. Ei enw fel pregethwr gwahanol, un oedd yn canu a chamu o'r pulpud i'r gynulleidfa, oedd wedi goroesi. A dyna pam yr es i i'n capel i wrando arno. Ychydig o enwogion fel hyn oedd yn dod i'n pentref ni!

Ni chofiaf yr un gair o'r bregeth. Nid oedd y tân disgwyliadwy yn ei gyflwyniad. Ond daeth i lawr o'r pulpud dan lefaru os nad canu, a hynny a wnaeth y profiad yn unigryw. O leiaf roeddwn wedi profi fod y straeon amdano'n wir ac fy mod wedi clywed un o'r enwau mawr. Ymhen rhai blynyddoedd wedyn roeddwn yn gweithio yn Birmingham ac wedi llwyddo i ganfod capel Cymraeg ar nos Sul. Clywed amdano yno eto. Dyna ti fab Tom Nefyn, meddai aelod o'r gynulleidfa gan edrych i'r rhesi pellaf oddi wrthym. Ei weld o bell oedd yr unig beth a wnes i.

Erbyn heddiw rydym mewn oes wahanol a phrin y daw enwau'r gorffennol i'r clyw. Dyna oedd yn syndod am yr ymgyrch yn y Pistyll, yn arbennig gan wybod nad oedd adeilad yn golygu cymaint â hynny i Tom Nefyn. Ar y priffyrdd a'r caeau yr oedd ei bwyslais ef ac o leiaf mae'r ffordd honno ar agor o hyd i ymgyrchwyr tai'r cylch.

# GAIR BACH

*gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*



## GLANHAU'R STAFELL

Am gyfnod byr, rhywbryd yn ystod y flwyddyn ryfedd ddiwethaf, roedd hi'n daclus yma. Llwyddais i gael trefn ar y papurau a'r cyfan oedd rywsut wedi ymgartrefu yn yr un stafell â'm desg a'm llyfrau. Ond ers hynny daeth rhagor o stwff nes bod yma unwaith eto dir gwaharddedig i bob dieithryn. Ers misoedd, ymunais â myrdd o gyfarfodydd Zoom o'r stafell hon, ond gan ofalu gwneud hynny o un gornel rhag i neb weld y llanast o'm cwmpas. O bosib y bydd cydnabod y peth yn gyhoeddus fel hyn yn ysgogiad i mi fynd ati o'r newydd i roi trefn ar bethau!

Nid dyna f'unig stafell waharddedig chwaith. Mae un arall yr wyf yn fwy awyddus fyth i gadw'r drws iddi ar glo. Nid llanast yn unig sydd yn honno ond budreddi, a hwnnw'n fudreddi blynyddoedd. Budreddi oes, a bod yn onest. Cafodd y stafell hon ei glanhau'n drwyadl flynyddoedd yn ôl gan y glanhawr gorau posibl; ond tristwch pethau ydi fy mod yn dal i'w baeddu o hyd. Mae'r baw i'w weld yn glir trwy ffenestr y stafell, a llawer gormod o bobl gwaetha'r modd wedi cael cip olwg arno dros y blynyddoedd. Y gwir ydi nad oes modd peidio â gweld y budreddi hwnnw, ond y mae iddo haenau a dyfnderoedd na ŵyr neb ond y glanhawr a minnau amdanynt. Mae'n syndod na throdd y glanhawr ei gefn arnaf ers talwm. Mae'n llawn amynedd tuag ataf ac wrth law bob dydd, yn dal i lanhau. Trwy drugaredd, dim ond y glanhawr a minnau a ŵyr pa fudreddi a lanheir yn stafell ddirgel fy nghalon.

'Arglwydd, yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod ... yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd ... nid oes air ar fy nhafod heb i ti, Arglwydd, ei wybod i gyd' (Salm 139:1-4).



# O'R LLAN

## *gan y Canon Idris Thomas*



### "A'I FAGWYR GERRIG A SYRTHIASAI I LAWR"

Wrth gerdded llethrau fy mro, perthnasol iawn, fel y cewch glywed yn y man, yw'r geiriau uchod o Lyfr y Diarhebion – geiriau o Feibl William Morgan ydynt. Ystyr *"magwyr"* yw mur, clawdd neu wrych ac mae i'w weld mewn sawl man yn y Beibl megis "ac angel yr Arglwydd a safodd ar lwybr y gwinllannoedd a magwyr o'r ddeutu" (Numeri 22). Yn y Beibl Cymraeg Newydd defnyddir "clawdd" yn aml yn lle "magwyr" megis "a chlawdd ar syrthio" yn Salm 62 ac yn llyfr Eseia ym mhennod 5 yng Nghân y Winllan ceir "tynnaf ymaith ei chlawdd ac fe'i difethir".

Sonia yr Apostol Paul am fur rhwng yr Iddewon a'r Cenhedloedd a oedd mewn un man yng nghynteddau'r Deml yn Jerwsalem ac a dynnwyd i lawr yn y diwedd. I gyntedd y Deml a dim modfedd pellach y cawsai'r Cenhedloedd fynd ac roedd mur yno i'w rhybuddio o hyn; y gosb am fentro oedd marwolaeth. Roedd y mur yn arwydd o ddirmyg, nes peri i'r Apostol ddweud "oherwydd Ef [yr Iesu wrth gwrs] yw ein heddwch ni...gwnaeth y ddau, yr Iddewon a'r Cenhedloedd, yn un, wedi chwalu trwy ei gnawd ei hun y canolfur o elyniaeth oedd yn eu gwahanu".

Gwir yw'r dywediad "ni ellir difodi hen gasineb heb fod rhywbeth gwell yn cymryd ei le" sef yr hyn a glywais ar sianel Americanaidd CNN ar ddiwrnod llofruddio George Floyd. Un o bregethwyr croenddu huotlaf ei gyfnod oedd yn siarad, gan ddweud wrth y miloedd yng nghanol y drasiedi emosiynol ac erchyll honno: "cofiwch galwyd ei enw ef Iesu...ni bu ei ragorach am ddryllio muriau".

### CLODDIAU FY MRO

Cyn bod sôn am Ddinorwig a Deiniolen "Llanddeiniolen" (hen blwyf Llanddeiniolen fel y dywedir) oedd yr enw ar yr ardaloedd hyn yn Arfon. Yn y llyfr *Bro Deiniol: Atgofion Plwyf Llanddeiniolen* gan Thomas Phillips (Ap Iolen) a gyhoeddwyd yn 1936, dywed yr Athro W.J. Gruffydd, a aned yn Gorffwysfa, Bethel: "diweddar yw galw pen uchaf plwyf Llanddeiniolen yn Dinorwig...y rheswm am hynny yw bod chwarel Elidir (enw'r mynydd) wedi ei galw yn Chwarel Dinorwig am mai Dinorwig oedd enw'r faenor ac wedi hynny y galwyd *y gymuned* a godwyd gerllaw gydag enw'r chwarel. Llanddeiniolen yw'r plwyf, a Dinorwig yw'r faenor neu'r arglwyddiaeth." I gyrraedd cymuned Dinorwig mewn car neu fws, rhaid mynd drwy bentref Deiniolen i fyny Gallt y Foel a chyrraedd cymuned fy ngeni sy'n fil o droedfeddi uwchlaw'r môr. Dewch draw am drip, af â chwi o gwmpas! Mae cant a mil o waliau yn britho tiriogaeth Dinorwig. Cofiaf rai blynyddoedd yn ôl i fam-gu Ann fy ngwraig, sef Lizzie Jones, gwraig fferm o Glannant Coy, Cellan nepell o Lanbedr Pont Steffan ymweld â Dinorwig; yn wir hwn oedd ei hymweliad cyntaf â'r Gogledd. Roedd wedi rhyfeddu at waliau cerrig Dinorwig a bod cymaint ohonynt. Golygfa gwbl wahanol oedd ei thiriogaeth amaethyddol gyfoethog a chloddiau ei chynefin hi.

Gyda thwf Chwarel Dinorwig, adeiladwyd bythynnod ac anheddau niferus yma ac acw fel pe baent wedi cael eu plannu ar hap ac yn sgil hyn datblygodd ffordd o fyw y "chwarelwr-dyddynnwr". Gwaith trwm oedd trin y tir mynyddig oer a llwm i greu porfa, caeau gwair a thir i dyfu cnydau. Ar wahân i ddefaid, cedwid ambell fuwch, llo, mochyn ac ieir ac roedd y rhain yn gymorth at gyflog prin y chwarel. O gwmpas pob anheddfa yr oedd wal neu waliau a phob carreg yn ei lle – heddiw adfeilion lu o dai a welir ar y llechweddau a'r waliau bellach o amgylch y caeau yn fylchog. Dyna oedd profiad Eseciel gynt: "ac wedi imi edrych gwelais dwll yn y mur". Pan euthum at furddun ar y llechweddau y dydd o'r blaen a sefyll wrth y wal o'i amgylch, crisialwyd fy nheimladau emosiynol gan eiriau o lyfr y Diarhebion sef y pennawd a roddais uchod –"a'i fagwyr gerrig a syrthiasai i lawr".

### CYFEIRIADAU AT WALIAU

O ddarllen am ymdrechion glew Angharad Tomos ac eraill yn Nyffryn Nantlle, lle cafodd fy mam ei magu, yn mynd ati i roi cofeb ar Frynllidiart, cartref Silyn Roberts a Mathonwy Hughes, dyma fynd ati i ailddarllen *Atgofion Mab y Mynydd* gan y Prifardd Mathonwy Hughes a gyhoeddwyd yn 1982. Hoffaf eiriau agoriadol ei lyfr: "Yn y dechreuad yr oedd mynydd...". Wrth iddo ymweld â'i aelwyd dywed "rhan o'r ucheldir moel hwn oedd hen ffridd nepell o'm hen gartref...yng nghornel uchaf y ffridd roedd gweddillion pedair gwal gerrig a fuasai ar un adeg yn amgylchu clwt petryal o'r mynydd...clywais fy mam yn dywedyd bod hen draddodiad yn honni bod coedlan rywdro ar y llecyn diarffordd hwn ac mai gweddillion ei gwarchodfuriau oedd yr hen waliau adfeiliedig".

Mae llinellau olaf cerdd arbennig John Morris (Aberdaron), brodor o'r Fachwen islaw Dinorwig sef *Cloddiau* yn dod i'm meddwl:

"Ni feddent ddim – hyn oedd eu bro a'u byd.
Mae'r cloddiau mwy dan gwrlid crych y cen
A'r ŵyn didaro'n llamu dros eu pen."

Gorffennaf gyda chlasur o englyn gan Alan Llwyd, *Clawdd terfyn fy nhaid:*

Impiodd ei glawdd ei gampwaith – ac erys
Yr hen gaer, heb anrhaith,
Yn gronicl o'i gywreinwaith,
Yn epig mewn cerrig gwaith.

# Y Beibl Trwy Lygaid Bydwraig

*gan Nanw Povey*



Mae pawb yn dehongli'r Beibl yn ei ffordd ei hun, fel y cytunwch rwy'n siŵr. Diwinyddion yn dwys ystyried, gweinidogion yn chwilio am wers at eu pregeth nesaf. Yn bersonol credaf ei bod yn well i mi adael moesoli i eraill, ond rwy'n gweld y Beibl yn llyfr hanes anhygoel.

Yn wir mae'r cyfan i'w weld rhwng ei gloriau: ein holl ddyheadau; holl wendidau a chryfderau dynolryw. Fel bydwraig ac un fu'n hyfforddi bydwragedd am flynyddoedd, mae'r storïau sy'n cyffwrdd â'r proffesiwn hwn o ddiddordeb arbennig i mi. Credaf hefyd eu bod mor berthnasol heddiw â'r dydd y'u cofnodwyd. Yn sicr mae yma bethau fyddai'n cyrraedd penawdau'r papurau dyddiol heddiw! Gadewch inni droi at stori yn yr Hen Destament.

**Geni efeilliaid**

*Pan ddaeth ei dyddiau i esgor, yr oedd gefeilliaid yn ei chroth. Daeth y cyntaf allan yn goch, a'i holl gorff fel mantell flewog; am hynny galwyd ef Esau. Wedyn daeth ei frawd allan, a'i law yn gafael yn sawdl Esau; am hynny galwyd ef Jacob. Yr oedd Isaac yn drigain oed pan anwyd hwy.* (Genesis 25: 24-26)

Roedd Rebeca ac Isaac yn hen yn cael yr efeilliaid: am ugain mlynedd buont yn anffrwythlon. Roedd anffrwythlondeb yn peri pryder iddynt, fel i lawer yn ein dyddiau ni. Mae tuag un ymhob tri cwpwl yn methu cenhedlu heddiw, er y gall meddygon gynnig triniaeth sy'n goresgyn y broblem, i rai o leiaf. Lle bo triniaeth o'r fath yn methu, mae hefyd yn bosibl heddiw defnyddio had dyn arall, ofwm dynes arall, croth dynes arall... nid oes angen cyfathrach rywiol bellach i feichiogi. O edrych i'r dyfodol, tybed a fydd dynion a merched yn angenrheidiol i'r broses genhedlu o gwbl, ynteu a welir clonio yn digwydd?

Mae cwestiynau moesol dyrys yn codi yma, wrth gwrs. Pa mor bell y gallwn adael i'r gwyddonwyr meddygol fynd er mwyn cynorthwyo a dylanwadu ar genhedlu? Bellach mae peirianneg enetig yn golygu y gellir sicrhau plentyn heb nam corfforol. Sut fydd cymdeithas yn derbyn person â nam corfforol ar ei enedigaeth pan fo modd ei ddileu yn y groth? Ac wrth feddwl am oedran rhieni, pa mor hen ydi rhy hen? Yn ôl Google, y wraig hynaf hyd yma i eni plentyn oedd rhywun 73 oed.

**Rebeca a'i meibion**

Mae'n debyg mai naevus mefus blewog coch oedd gan Esau; at hynny roedd ei holl gorff wedi ei orchuddio â blew. Yn sgil hyn daeth problemau erchyll i'r teulu. Heddiw mae llawer iawn y gall meddygon ei wneud; er hynny, ychydig sydd ganddynt i'w gynnig i drin naevus mefus nad yw'n cilio wrth i'r baban dyfu. Nid oes triniaeth lwyddiannus eto i'r fantell flewog, chwaith. Methodd Rebeca â chreu perthynas glòs ag Esau am ei bod wedi casáu ei nam corfforol. Roedd Jacob yn edrych yn berffaith a charodd ei fam ef. Yn wir mae'n debyg bod Rebeca wedi anwybyddu Esau'n llwyr a rhoi'r sylw i gyd i Jacob.

Mae'n bwysig i'r fydwraig gofio mai peth hawdd ydi i riant garu un plentyn yn fwy na'r llall. Gall ddigwydd am bob math o resymau: plentyn heb fod o'r rhyw a ddymunwyd; abnormalrwydd corfforol; neu petai un o efeilliaid yn wael a gwan a hynny'n amharu ar y broses seicolegol o fondio.

Mae'n amlwg yn ôl y stori fod Isaac wedi ceisio gwneud iawn am ddiffygion ei wraig oedd yn caru Jacob yn fwy. Hefo'i dad yn y maes y treuliai Esau ei amser. Tybed ai ymdrech oedd hyn ar ran Isaac i gadw Esau o olwg pobol fuasai'n rhythu arno, ac o gwmni ei fam oedd yn ei drin yn israddol i Jacob? Mae pobl sydd ag anabledd wedi wynebu problemau drwy'r oesoedd a dyna wrth gwrs sydd wedi arwain at ddeddfwriaeth yn ein cyfnod ni, i atal camwahaniaethu ar sail anabledd. Cafodd cyflwr Esau effeithiau pellgyrhaeddol gan arwain o bosib at y cynllwyn i ddwyn ei enedigaeth-fraint oddi arno.


**Stori anghyffredin**

Yn ôl llyfr Genesis, roedd braich Jacob wedi ei geni'n gyntaf ac roedd ei law yn gafael yn sawdl Esau. Rhaid bod y digwyddiad yn ddigon anghyffredin i'w gofio a digon pwysig i'w gofnodi. Mae bydwragedd sy'n gweini yn gyfarwydd â phobl yn dehongli ambell ddigwyddiad, gan feddwl ei fod yn arwydd o ryw fath. Efallai fod Jacob yn pwyso llai nag Esau a bod digonedd o le i'w fraich ddod allan o'r pelfis yr un amser â'r droed, ond dyfalu yw hyn. Cofiwch, go brin y buasai'r stori anhygoel yma wedi ei chofnodi yn y Beibl petai un o'r babanod yn ferch! Mae'r frwydr am gyfiawnder a chydraddoldeb yn para hyd heddiw.

# Lleisiau Ddoe

*gan y Parchedig Roger Roberts*

Un newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw bod Cyfarfodydd Pregethu wedi mynd yn bethau prin, er bod Cymanfa Bregethu Gydenwadol Rhoshirwaun yn dal ei thir hyd heddiw. Yn ei hanterth byddai pum pregethwr yn cymryd rhan yno, un o bob enwad, a'r uchel ŵyl yn denu cynulleidfaoedd niferus iawn. Mawr fyddai'r trafod: tro pa enwad oedd hi i bregethu'n olaf a chau yr ŵyl eleni, a phwy oedd wedi pregethu orau? Atgofion melys!



Roedd gan bob enwad eu cewri a rhai o fawrion y Wesleaid oedd Tecwyn Evans, John Roger Jones a Tegla Davies. Clywais y tri: huodledd John Roger; addfwynder a symlrwydd Tegla; dawn arbennig Tecwyn. Clywais lawer o sôn am eraill fel Garrett Roberts, oedd â dawn ddramatig neilltuol, ond y ddau rydw i'n eu cofio orau yw T.G. Ellis ac Enoc Davies. T.G. Ellis yn swyno cynulleidfa a bron yn llafarganu rhan o'i bregeth, ac Enoc yn apelio at dorf o fyfyrwyr pan oedd yn weinidog ym Mangor.

Yn yr un cyfnod, rhai o gewri yr eglwys Fethodistaidd Saesneg oedd William Sangster (a fu ar un adeg yn weinidog yng Nghonwy), Leslie Weatherhead a Donald Soper. Cofiaf wrando ar bob un o'r rhain ond mae fy nyled fwyaf i Soper, a glywais yn pregethu adeg helynt Hwngari ar y testun "Pwy a anfonaf?" yng nghapel Twrgwyn, Bangor. Dyna'r noson, 64 o flynyddoedd yn ôl, pan benderfynais yn fyfyriwr ifanc fy mod am fynd i'r weinidogaeth. "Wele fi, anfon fi."

Byddai hyd yn oed gweinidog ifanc yn cael ei wahodd i gyrddau pregethu – ac rwy'n gwrido wrth gofio rhai o'r pregethau! Ond mae pobl yn drugarog a charedig. Dim ond ychydig iawn o gapeli'r wlad sydd ar ôl bellach, wrth gwrs. Daeth cyfnod pan nad oedd ond un neu ddau o ffyddloniaid, chwiorydd yn aml, yn cadw'r drws yn agored. Cofiaf Mrs Roberts ar ei phen ei hun yn y sêt gefn yn Nebo, Eglwysbach a'r tair chwaer yn eistedd dan y galeri yn Gorffwysfa, Tregarth.

Mae llawer o oedfaon y byddaf yn dal i sôn amdanynt. Cofiaf yn dda am Seion, Hirael, dros hanner can mlynedd yn ôl, efo capel llawn a Mrs Ethel Pauline Davies wrth yr organ. Ledio "Rhagom Filwyr Iesu" i gloi'r oedfa a dyma'r dyrfa yn y galeri yn "gorymdeithio" wrth ganu.

Diolch i bob un o ffyddloniaid y capeli ar hyd y blynyddoedd. Braint oedd cael gwasanaethu.



# CYSUR CERDDORIAETH

## *gan Gareth Blainey*



Ers imi ymddeol ar ddechrau eleni rydw i wrth fy modd yn cerdded bob bore pan fydd hi'n sych am ddwy awr o'm cartre uwchben tref Pontypridd i ardaloedd gwledig. Wrth gerdded rydw i hefyd yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth neu wrando ar bodlediadau ar fy ffôn ac un o'm hoff bodlediadau yw "Desert Island Discs". Un o raglenni mwyaf adnabyddus BBC Radio 4 yw hon, lle mae gwestai yn dewis wyth darn o gerddoriaeth y buasai o neu hi'n dymuno gallu gwrando arnyn nhw petai'n gorfod mynd i fyw ar ynys ymhell o bob man. Mae'r rhaglen yn gyfle i'r gwestai siarad am ei fywyd ac ychydig fisoedd yn ôl ces i flas ar wrando ar ddewisiadau un o gerddorion clasurol amlycaf y byd, Yo-Yo Ma.

Sielydd yw Ma a gafodd ei eni ym Mharis i rieni o China a dangosodd ei dalent yn chwarae'r sielo, ac yntau ond yn saith oed, gerbron diweddar Arlywydd yr Unol Daleithiau, John F. Kennedy, yn 1962. Mae modd gwylio'r perfformiad hwnnw ar wefan YouTube a hefyd ar YouTube gallwch wylio perfformiad arall ganddo ar gyfer cyngerdd adeg urddo Arlywydd presennol yr Unol Daleithiau, Joe Biden, ym mis Ionawr. Chwaraeodd Ma alaw'r emyn 'Pererin Wyf' a dyma un o'r alawon sydd ar ei grynoddisg ef a'r pianydd o Loegr Kathryn Stott a ryddhawyd y llynedd.

"Songs of Comfort and Hope" yw teitl y crynoddisg a hefyd y llynedd yn ystod y cyfnodau clo recordiodd Ma ei hun yn chwarae'r sielo a gosod y perfformiadau hynny ar wefannau cymdeithasol o dan y teitl "Songs of Comfort". Ar "Desert Island Discs" siaradodd yn huawdl am y cysur sydd i'w gael gan gerddoriaeth. Gwelodd hynny gyda'i lygaid ei hun pan aeth i gael ei ail frechlyn Covid-19 ym mis Mawrth. Aeth â'i sielo i'w ganolfan frechu leol yng Ngholeg Cymunedol Berkshire yn nhalaith Massachusetts ac ar ôl derbyn y brechlyn perfformiodd mewn mwgwd am chwarter awr gerbron pobl oedd yn aros i gael eu brechu. Yn ôl Ma gwnaeth ymateb un hen ŵr argraff fawr arno:

"Eisteddodd a gwrandawodd yn astud fel tasai hyn yn rhywbeth roedd wir ei angen arno. I mi, dyna hanfod perfformio cerddoriaeth. Mae'n fath o ynni, o fwyd – nid yn yr ystyr gorfforol efallai, ond yn sicr yn yr ystyr ysbrydol."

